O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 2502 (Cy.274)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) (Rhif 2) 2011

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *19 Hydref 2011* |
| *Yn dod i rym* | *30 Hydref 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid gwahardd neu gyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Hydref 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Cyfyngiad a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) (Rhif 2) 2011.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n achosi'r Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *(*"works period"*)* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 00:01 o'r gloch ar 30 Hydref 2011 ac a ddaw i ben pan fydd y goleuadau traffig dros dro'n cael eu symud ymaith yn barhaol.

ystyr "darn(au) o'r gefnffordd" *("length(s) of the trunk road")* yw'r darnau hynny o'r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlenni 1 i 4 o'r Gorchymyn hwn;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd heblaw cerbyd esempt gael ei yrru, yn naill ai'r lôn gerbydau tua'r dwyrain neu'r lôn gerbydau tua'r gorllewin ar y darn o'r gefnffordd sydd wedi ei nodi yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** (1) Mewn cyfnodau pan fo symudiad yn y lôn gerbydau tua'r dwyrain wedi ei wahardd gan erthygl 3, ond heb ei wahardd yn y lôn gerbydau tua'r gorllewin, yn unol ag erthygl 9, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd:–

(i) deithio yn lôn allanol y lôn gerbydau tua'r gorllewin, ar y darn o'r gefnffordd dan sylw, mewn unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r dwyrain;

(ii) deithio mewn unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r dwyrain drwy'r naill neu'r llall o'r adwyon yn y llain ganol ar y darn o'r gefnffordd sydd wedi ei nodi yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mewn cyfnodau pan fo symudiad yn y lôn gerbydau tua'r gorllewin wedi ei wahardd gan erthygl 3, ond heb ei wahardd yn y lôn gerbydau tua'r dwyrain, yn unol ag erthygl 9, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd:–

(i) deithio yn lôn allanol y lôn gerbydau tua'r dwyrain, ar y darn o'r gefnffordd dan sylw, mewn unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r gorllewin;

(ii) deithio mewn unrhyw gyfeiriad heblaw tua'r gorllewin drwy'r naill neu'r llall o'r adwyon yn llain ganol y darn o'r gefnffordd sydd wedi ei nodi yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd heblaw cerbyd esempt gael ei yrru, ar y darnau o'r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, na pheri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd deithio, ar gyflymdra o fwy na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd sydd wedi eu nodi yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio neu ganiatáu defnyddio cerbyd yn y fath fodd ag i beri iddo oddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o'r gefnffordd sydd wedi ei nodi yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.